    

## Faint mae'n ei gostio?

Fel gyda phob Grŵp Sgowtiaid, rydym yn manteisio ar danysgrifiadau er mwyn talu am gyfarpar ac adnoddau er mwyn sicrhau profiad Sgowtio o safon. Mae cyfran o'r ffioedd tanysgrifio yn mynd tuag at y ffi aelodaeth flynyddol, sy'n daladwy i'r pencadlys, er mwyn talu am yswiriant i'r holl aelodau.

Caiff tanysgrifiadau eu talu pob tymor (ym mis Medi, Ionawr, ac Ebrill) sef £48.00, neu £12 y mis. Rydym yn casglu'r ffioedd tanysgrifio gyda debyd uniongyrchol misol drwy Online Scout Manager (OSM). Dydy arweinwyr y Sgowtiaid ddim yn derbyn arian parod am unrhyw daliadau; caiff yr holl daliadau, gan gynnwys ffioedd digwyddiadau a ffioedd gwersylla, eu prosesu drwy OSM. Er bod yn rhaid talu ffi bach am y system hwn, mae'n lleihau ein llwyth gwaith gweinyddol ac yn sicrhau caiff taliadau eu neilltuo'n gywir, felly gofynnwn yn garedig ichi gofrestru gyda'r OSM.

Os hoffech chi gael blas ar Sgowtio, bydd y sesiwn gyntaf yn rhad ac am ddim. Wedi hynny, mae'n £3 fesul sesiwn am hyd at bedair wythnos nes bod yr unigolyn ifanc yn penderfynu ymuno, ac yna byddwch yn derbyn cais am daliad drwy OSM. Fodd bynnag, mae ein polisi yn blwmp ac yn blaen: ni ddylai unrhyw berson ifanc golli cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn sgil cyfyngiadau ariannol. Rydym yn deall y gallai arian fod yn dynn felly mewn rhai amgylchiadau fe allwn ni geisio am gymorth ariannol ichi drwy Gronfa Ddewisol y Comisiynydd Ardal. Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ffioedd gwersylla, costau gwisgoedd neu os ydych chi'n ffafrio cynlluniau talu, mae croeso ichi sgwrsio'n breifat gydag un o'n Harweinwyr. Rydym yn hyblyg a buasai'n well gennym ni fynd i'r afael ag unrhyw broblem cyn gynted â phosibl yn hytrach nac ymdrafferthu i gael gafael ar daliadau'n hwyrach ymlaen. Mae cymryd rhan yn un o'n blaenoriaethau.

## Sut allwch chi helpu?

Mae Sgowtio yn dibynnu ar oedolion sy'n gwirfoddoli, ac rydym yn eich annog i gymryd rhan. Rydym bob amser yn chwilio am arweinwyr gwych i helpu gyda'r amryw adrannau, ond mae angen inni drefnu bod tîm wrthlaw i'w helpu yn ogystal. Efallai y gallwch chi helpu yn un o'r ffyrdd canlynol ac ymuno yn yr antur y mae Sgowtio'n ei gynnig i oedolion yn ogystal â phobl ifanc.

Rydym yn ymdrin â materion diogelwch yn drylwyr yn ein Hyfforddiant i Arweinwyr. Pan fo ni'n cymryd rhan mewn gweithgareddau mwy anturus megis chwaraeon dŵr, ogofa a mynydd, gallwn fanteisio ar ddeiliaid trwyddedau gweithgareddau cymwys i sicrhau bod yr holl Bobl Ifanc mewn dwylo diogel.

barrym@1stgwydyrscouts.or
Barry Moses, Arweinydd Grŵp Sgowtiaid (GSL) Gwydyr 1af